Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

CYNRYCHIOLAETHAU A WNAED MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLION DROS DRO AR GYFER SIR GADWEDIG GORLLEWIN MORGANNWG

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau

Mai 2004

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Sir Gadwedig Gorllewin Morgannwg a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2004

CYMERADWYAETH

1	Cyngor Dinas a Sir Abertawe	Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cefnogi adlinio ffin etholaeth Bro Gŵyr gan ei fod o fudd i'r etholwyr sy'n gysylltiedig a bydd yn hwyluso gweinyddu etholiadau.
2	Llafur Cymru	Yn cefnogi pob agwedd ar yr argymhellion dros dro yn llwyr.
3	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Yn cefnogi'r cynigion mewn perthynas â Gorllewin Morgannwg.
4	Etholaeth Bro Gŵyr y Blaid Lafur	Yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Gorllewin Morgannwg sy'n cynnal y sefyllfa bresennol. Yn cymeradwyo mân newidiadau I etholaeth Bro Gŵyr.
5	Ward Pontybrenin y Blaid Lafur	Yn cefnogi'r cynnig i gynnal y sefyllfa bresennol, yn gyffredinol, yng Ngorllewin Morgannwg.
6	Etholaeth Dwyrain Abertawe y Blaid Lafur	Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Dwyrain Abertawe.
7	Etholaeth Gorllewin Abertawe y Blaid Lafur	Mae Etholaeth Gorllewin Abertawe y Blaid Lafur yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Gorllewin Abertawe.
8	Y Gwir Anrh. Peter Hain AS	Yn cefnogi'r cynigion sy'n berthnasol i Etholaeth Castell-nedd.
9	Ms Edwina Hart AC	Yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Bro Gŵyr a Gorllewin Morgannwg.
10	Ms Val Lloyd AC	Yn cefnogi'r argymhellion dros dro ar gyfer Gorllewin Morgannwg a Rhanbarth De Orllewin Cymru y Cynulliad.
11	Cyng. Gethin Evans	Yn cymeradwyo cadw'r sefyllfa bresennol gyffredinol ar gyfer etholaeth Bro Gŵyr.
12	Mr D Fox	Yn cymeradwyo etholaethau Dwyrain a Gorllewin Abertawe, Bro Gŵyr, Castell-nedd ac Aberafan.
13	Mr M J Hedges	Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Dwyrain Abertawe.

GWRTHWYNEBIAD

14	Plaid Geidwadol Cymru	Yn cynnig trosglwyddo Cymuned y Mayals i Fro Gŵyr a Chlydach a Mawr i Gastell-nedd a throsglwyddo wardiau Blaengwrach, Glyn-nedd, Pelanna a Resolfen I etholaeth Aberafan.

15	Cymdeithas Geidwadol Bro Gŵyr	Yn cynnig trosglwyddo Ward y Mayals o Orllewin Abertawe i Fro Gŵyr a wardiau Clydach a Mawr i Gastell-nedd.
16	Mr Peter Black AC	Yn cynnig newidiadau i etholaethau Dwyrain Abertawe a Bro Gŵyr ble ceir anghysondebau.
17	Mr Alun Cairns AC	Yn cynnig trosglwyddo Cymuned y Mayals i Fro Gŵyr a Chlydach a Mawr i Gastell-nedd a throsglwyddo wardiau Blaengwrach, Glyn-nedd, Pelanna a Resolfen i etholaeth Aberafan.
18	Mr T Donoghue	Yn dymuno i Ffordd y Mayals, Blackpill gael ei throsglwyddo o Orllewin Abertawe i Fro Gŵyr am resymau rhesymegol a daearyddol.
19	Mr E J Furneant	Yn dymuno gweld newid i'r ffin gyda etholaeth Bro Gŵyr gan mai Ward y Mayals yw'r unig ward y tu allan i Gymuned y Mwmbwls yn yr etholaeth honno. Dywed mai nant y Clun yw'r ffin naturiol.
20	Miss P F Griffiths a M J Edwards	Yn dymuno gweld newid y ffin ag etholaeth Bro Gŵyr gan mai ard y Mwmbwls yw'r unig ward nad yw o fewn Cyngor Cymunedol y Mwmbwls ac etholaeth Bro Gŵyr, a hynny'n fresymegol. Yn awgrymu y byddai'r afon Clun yn ffin naturiol.
21	Mr J G Gwilliam	Yn cynnig trosglwyddo Ward y Mayals o Orllewin Abertawe i Fro Gŵyr am resymau rhesymegol a daearyddol.
22	Mr a Mrs John a Carol Powell	Hoffent newid y ffin rhwng etholaethau Gorllewin Abertawe a Bro Gŵyr gan mai Ward y Mayals yw'r unig aelod o Gyngor Cymuned y Mwmbwls nad yw'n ran o etholaeth Bro Gŵyr. Y awgrymu'r afon Clun fel ffin naturiol.
23	Mr M N Rees	Yn dymuno gweld Ffordd y Mayals, Blackpill yn cael ei symud o Orllewin Abertawe i Fro Gŵyr oherwydd y byddai'r afon Clun wedyn yn ffin naturiol.

Y prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro yw'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Blaid Geidwadol Cymru. Cefnogwyd y gwrthgynnig hwn gan nifer o'r cynrychiolaethau (yn enwedig am Adran Etholiadol y Mayals). Mae'r tabl canlynol yn rhoi manylion y cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas â'r mater hwn a'r cynrychiolaethau sy'n cefnogi'r argymhellion dros dro ar gyfer yr ardal hon.

	Cynrychiolaethau	**Cyfanswm**
Gwrthwynebiad	14,15, 17,18,19,20,21,22,23	9
Cymeradwyaeth	2,3,4,5,7,9,10,11,13	9

Tŷ Caradog , 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk / e-bost : comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk